CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 24ain MAI 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Einion Parry Williams (Cadeirydd), Cynghorwyr Barbara McKeaveney, Mr Edward J Thomas, Mrs Catherine Jane Hughes, Mr John D Pritchard, Ms Linda Jones, Mr Meirion Thomas, Mr Ian Owen, Mr Raymond Evans & Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwyr Mrs Janet Hughes & Mr Mike Jones a Cynghorwr Sirol: Mr Victor Hughes.

1 CROESO.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i'r cyfarfod.

2 DATGAN DIDDORDEB.

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw aelod diddordeb mewn unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Eifion Jones ar y canlynol:

3.1 **Adroddiad Llawn ganddo yn dilyn cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol** – ar ol yr ymateb cafwyd disgwylir ymgynghoriad pellach yn yr Hydref.

3.2 **Ymgynghoriad Safle Sipsiwn** – cafwyd adroddiad pellach yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Scriwtini ar Ddydd Gwener, 13eg Mai 2016 ac y bydd trafodaeth pellach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar y 31ain Mai 2016 i drafod yr argymelliadau.

3.3 **Llifogydd Lon Groes & Phentre Berw** – cafwyd adroddiad llawn ganddo yn dilyn ymateb Dwr Cymru. Disgwylir y gwaith yn Lon Groes gychwyn yn ystod Mis Medi 2016 ond fydd rhaid disgwyl ym Mhentre Berw tan ar ol Hydref 2016 ond yn y cyfamser, sicrhawyd y bydd unrhyw gwaith cynnal a chadw sydd angen yn parhau er mwyn lleihau y risg o gorlifo.

3.4 **Adroddiad Cyllidol y Cyngor Sir** – cafwyd gwybodaeth fod y Cyngor Sir wedi tan wario yn ei cyllid y llynedd ac fe cafwyd eglurhad ar yr effaith caiff hyn i'r trethdalwr am y flwyddyn nesaf. Oherwydd y ffigurau sydd wedi ei datgelu, dywedwyd fod y rhagolygon o ymuno a Cyngor Gwynedd yn lleihau.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 26ain o Ebrill 2016 yn gywir. (ET/BM).

Arwyddo.....

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 **Ffensio Cae Chwarae Gaerwen Uchaf** – cadarnhawyd fod y gwaith wedi ei orffen.

5.2 **Cloeon Newydd y Giatau –** cadarnhawyd Cyng Ian Owen ei fod wedi prynu cloeon newydd i'r giatau caeau chwarae.

5.3 **Chwyn Laddwr –** cadarnhaodd Cyng Edward Thomas ei fod wedi prynu chwyn laddwr i'r caeau chwarae.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 **Twll Llwybr Gaerwen Uchaf –** cadarnhawyd fod Gang Cymunedol **y** Cyngor Sir wedi bod draw ac wedi llenwi'r twll.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Manholes Stad Cynlas, Swn yr Engan ac ar hyd yr A5 –** cadarnhad fod Arolygwr Priffyrdd & Gwaith Strydoedd yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu gyda y cwmniau cyfleustod priodol iddynt drefnu ail wneud y cloriau sydd angen sylw**.**

7.2 Parcio ger Safle y Gofeb – cadarnhad fod y mater wedi ei basio i'r adran traffig.

7.3 Pafin tu allan yr Iard Geir gyferbyn a Stermat ar y A5 – cadarnhad fod y gang cymunedol wedi llenwi'r tyllau gwaethaf ond yn gobeithio trefnu gwaith fwy parhaol hwyrach yn y flwyddyn**.**

7.4 Cyflwr Ffordd Lon Groes (mynedfa Stad Gaerwen Uchaf i Cyffordd Lon yr Orsaf) - cadarnhad fod y gang cymunedol wedi llenwi'r tyllau gwaethaf a rei hyd yn y pythefnos nesaf**.** Mae y mater o barcio ar y glaswellt wedi ei basio i'r adran gwaith strydoedd er mwyn gweld os oes posib gwneud rhywbeth tymor hir.

7.5 Pafin ger Glanrafon / Gorslwyn ym Mhentre Berw – cadarnhad fod y Cyngor Sir yn gobeithio ail wynebu y llwybr troed yma yn ystod y flwyddyn ariannol yma, fel drefnwyd fod ty gwaith cyrbio yn cael eu ychwanegu i'r gwaith

7.6 **Cysgodfan gyferbyn Canolfan Hamdden** – adroddiad fod y gobaith o orffen y gwaith dan sylw yn ystod gwyliau hâf yr Ysgol.

7.7 Parcio / Llinellau Melyn - cafwyd trafodaeth unwaith yn rhagor ynghylch a pharcio sydd yn achosi pryderon ac anhawster yn y pentref. Penderfynwyd ymestyn gwahoddiad i'r Heddlu i'r cyfarfod nesaf.

7.8 Biniau – Dywedodd y Clerc ei fod wedi gysylltu gyda McColls a gwneud ymholiadau gyda'r Adran Gwastraff ac fod y mater mewn llaw.

Arwyddo.....

7.9 **Rhos Ellen –** dywedodd Cyng Barbara McKeaveney fod ganddi pryderon am cerbyd sydd wedi parcio heb symud am 4 mis ar y Stad ac am mater arall – awgrymwyd y dylai cysylltu gyda'r Heddlu a datgan unrhyw amheuon atynt.

7.10 **Groesffordd Trên Gaerwen –** cadarnhad fod Dŵr Cymru yn gweithio ar y bibell dŵr sy'n gollwng ar y groesffordd trên rhwng Gaerwen a Llanddaniel Fab ac y bydd y ffordd ar gau i draffig gyda cherbydau am 5 diwrnod yn cychwyn ar y 23ain Mai 2016.

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn Lleoli Arwyddion heb eu goleuo a baneri yn:
Lleoliad: Llain Capel Ulo / The Herb Garden Centre, Pentre Berw – Rhif 33C195J/AD.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU

9 PENDERFYNIADAU YR ADRAN CYNLLUNIO.

9.1 Cais Cynllunio Llawn Bwlch Gwyn, Gaerwen – Rhif 33C183C.
Penderfyniad: CANIATÂD.

10 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

10.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Ebrill 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

10.2 **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 10.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

201193	Farm & Pet Place	Chwyn Laddwr	£41.40
201194	Evans Bros	Cloau Giatau	£18.00
201195	Dafydd Hughes	Torri Caeau Chwarae	£175.00
201196	Huw Frazer Owen	Ffensio Cae Chwarae Gaerwen Uchaf	£3,504.00
201197	J Alun Foulkes	Cyflog Mis Mai 2016	£240.00
201198	HMRC	PAYE	£ 60.00

10.3 **Materion Gweinyddu:**

10.3.1 Ystyried gosod Hysbysfwrdd Newydd i'r Cyngor Cymdeithas.

10.3.2 Angen cwblhau y mandate er mwyn llenwi a cwblhau yr archwiliad blynyddol.

10.3.3 Gobeithio cawn weld y Wefan Newydd yn barod erbyn diwedd Mis Mehefin.

10.3.4 Bydd rhaid adolygu Rheolau Statudol a Rheolau Cyllid yn dilyn newidiadau,

Arwyddo.....

10.4 Asesiad Risg:

10.4.1 Derbyniwyd yr amcancyfrif gwerth prynu Boilar newydd er mwyn lleihau risg damweiniau. (£975.00 + TAW).

11 ADRODDIADAU

Cafwyd adroddiadau ar y canlynol:

11.1 **Canolfan Esceifiog** - adroddiad oddiwrth Cyng Ian Owen fod y Cegin Newydd wedi ei osod.

11.2 **Fforwm Mynediad Lleol** – dywedodd Cyng Edward J Thomas ei fod wedi methu mynychu y cyfarfod diwethaf ac yn gofyn i aelod arall o'r Cyngor cymeryd ei le o hyn ymlaen

11.3 **Pwyllgor Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned** – 28ain Ebrill 2016. - cafwyd adroddiad oddiwrth y Cadeirydd.

12 GOHEBIAETH

12.1 **Cysylltiad y Grid Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru** – ymgynghoriad arfaethedig yr Arolygiaeth Cynllunio – er gwybodaeth yn unig.

13 ETHOL CADEIRYDD NEWYDD Y CYNGOR 2016 – 2017.

13.1 Etholwyd Cyng Barbara McKeaveney (ET/WRE) yn Gadeirydd newydd ac mi ddiolchodd i'r aelodau am y fraint unwaith yn rhagor ac i Cyng Einion P Williams am ei waith yn ystod y flwyddyn.

14 ETHOL IS-CADEIRYDD NEWYDD Y CYNGOR 2016 – 2017.

14.1 Etholwyd Cyng Linda Jones yn Is-Gadeirydd newydd (ET/IO).

15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 28ain MEHEFIN 2016.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:20yh.